OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2001 No. 1110

## Rheoliadau Adroddiadau Blynyddol Llywodraethwyr Ysgol (Cymru) 2001

**Dehongli**

**2.** Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “adroddiad llywodraethwyr” (“*governors' report*”) yw'r adroddiad y mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu ei baratoi unwaith ym mhob blwyddyn o dan adran 42(1) o Ddeddf 1998;

ystyr “cyfarfod blynyddol i'r rhieni” (“*annual parents' meeting*”) yw'r cyfarfod rhieni y mae'n ofynnol i'r corff llywodraethu ei gynnal unwaith ym mhob blwyddyn ysgol o dan adran 43 o Ddeddf 1998;

ystyr “cyfran o'r gyllideb” (“*budget share*”) yw'r swm a ddyrennir i'r corff llywodraethu yn rhinwedd adran 47 o Ddeddf 1998;

ystyr “Deddf 1996” (“*the 1996 Act*”) yw Deddf Addysg 1996(**1**);

ystyr “Deddf 1998” (“*the 1998 Act*”) yw Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998;

ystyr “y Cynulliad Cenedlaethol” (“*the National Assembly*”) yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

(**1**) 1996 p.56.